# Cysylltu

*Arweiniad ynghylch ymgysylltu â'ch cynrychiolwyr cyhoeddus (Aelodau Seneddol Llywodraethau Caerdydd a San Steffan, a chynghorwyr)*

cymru
cynghrair efengylaidd
gyda'n gilydd yn cyhoeddi Iesu

**Mae'r Cynghrair Efengylaidd yn dyheu am weld Cristnogion yn ymgysylltu â'u cynrychiolwyr cyhoeddus mewn modd adeiladol ac anogol, ond mi rydyn ni'n cydnabod y gall weithiau fod yn anodd gwybod ble i ddechrau. Ein gobaith ydy y bydd yr adnodd hwn yn eich helpu i ddechrau adeiladu perthynas gyda'ch cynrychiolwyr cyhoeddus ac yn eich annog i weddïo amdanyn nhw a'u cefnogi wrth iddyn nhw eich cynrychioli. Fe gewch hyd i ddewis o ffyrdd i gysylltu â'ch cynrychiolwyr cyhoeddus a'r modd mwyaf effeithiol o ymgysylltu â nhw ar faterion sydd o bwys i chi.**

Mae pandemig coronafeirws wedi'n gwneud inni dalu sylw mwy manwl na'r arfer ar benawdau'r newyddion ac atebolrwydd gwleidyddion fwyfwy dan y chwyddwydr. Mae cynrychiolwyr cyhoeddus, fel gweddill cymdeithas, wedi eu hymestyn i'r eithaf a'u digalonni gan ddifrifoldeb yr argyfwng iechyd, economaidd a chymdeithasol. Fel Cristnogion, eglwysi ac arweinwyr y ffydd, dewch inni annog ein harweinwyr etholedig, ac nid yn unig y rhai rydyn ni'n cytuno â nhw. Rydyn ni am i Gristnogion gael eu nabod fel pobl 'y newyddion da' ymhob agwedd a maes bywyd. Felly, peidied inni gymryd y cyfle i fod yn ddinasyddion gweithredol yn ganiataol. Dewch inni ymgysylltu gyda'n cynrychiolwyr cyhoeddus mewn modd sy'n meithrin ymddiriedaeth, anogaeth a phartneriaeth.

Mae gan yr eglwys y fframwaith a'r rhwydwaith mewnol i fod yn sylfaen pan ddaw hi'n fater o ailadeiladu bywydau pobl a chefnogi ein cymunedau o bob cefndir. Ganddon ni mae'r galon i garu a gwasanaethu'r rhai sydd wedi torri, ac mae ganddyn nhw rwydweithiau perthynol unigryw.

Rydyn ni am weld y cysylltiadau a'r cydberthnasau hyn yn gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau, er mwyn i gariad Iesu ddod i'r amlwg. Mae Duw, hefyd, yn ein gorchymyn i fod yn weithgar wrth wasanaethu a charu ein cynrychiolwyr cyhoeddus. Fel mae'n dweud yn 1 Timotheus 2:1-4: "O flaen popeth arall dw i'n pwyso arnoch chi i weddïo dros bawb - pledio a gweddïo'n daer; gofyn a diolch i Dduw ar eu rhan nhw. Dylech chi wneud hynny dros frenhinoedd a phawb arall mewn safle o awdurdod, er mwyn i ni gael heddwch a llonydd i fyw bywydau duwiol a gweddus. Mae gweddïo felly yn beth da i'w wneud, ac yn plesio Duw sydd wedi'n hachub ni. Achos mae e am i bobl o bob math gael eu hachub a dod i wybod y gwir."

# Pam ddylen ni ymgysylltu â'n cynrychiolwyr cyhoeddus?

## Mae cyfraniad yr eglwys yn bwysig

Mae gwead ein cymdeithas yn cynnwys pobl sy'n coleddu amryw o wahanol gredoau a gwerthoedd. Ar adegau, mae rhai o'r safbwyntiau yma'n gwrthdaro â'n hargyhoeddiadau ni fel Cristnogion, gan eu bod yn groes i'n persbectif Beiblaidd. Gall hyn weithiau gwneud inni deimlo dan fygythiad, neu wneud inni feddwl nad oes modd inni gynnig llais perthnasol mewn sgyrsiau'n ymwneud â phynciau allweddol cymdeithas a'r ffordd rydyn ni'n cael ein llywodraethu.

Mae Cristnogion yn parhau i gynrychioli canran uchel o boblogaeth Cymru ac felly, fel presenoldeb arwyddocaol yn ein cenedl, fe ddylen ni ddeall fod ganddon ni lais o bwys pan ddaw hi'n fater o lunio deddfwriaeth. Yn hytrach na chaniatáu'n ddiymateb i leisiau a safbwyntiau byd-eang eraill lunio ein gwerthoedd a'n deddfau cenedlaethol, mae modd inni fod yn ddinasyddion blaengar a gweithgar mewn sgyrsiau ynghylch materion sydd o bwys i ni.

## Mae'r Beibl yn ein dysgu i barchu pobl mewn awdurdod

Yn 1 Pedr 2:17, mae'n dweud wrthon ni am, "ddangos parch at bawb, caru eich cyd-Gristnogion, ofni Duw a pharchu'r ymerawdwr." Pa reswm gwell i ymwneud â'n cynrychiolwyr etholedig na rhoi Gair Duw ar waith trwy barchu eu harweinyddiaeth a'u swyddogaeth?

## Mae'r Beibl yn ein dysgu i garu pobl sy'n wahanol i ni

Mae Marc 12:31 yn gorchymyn inni "garu dy gymydog", gan gynnwys y

rhai hynny sy'n wahanol i ni. Tra bo Iesu'n cyfeirio at bobl o gefndiroedd crefyddol gwahanol fel ein cymdogion, mae'r rhai hynny sydd o farn wleidyddol wahanol i ni hefyd yn gymdogion inni.

## Fel Cristnogion, fe'n gelwir i geisio lles y ddinas

Mae Jeremeia 29:7 yn ein cyfarwyddo i geisio heddwch a ffyniant y ddinas rydych chi'n byw ynddi. Does bosib mai galwad ydy hon i weithgareddau a sgyrsiau sy'n gwneud bywyd yn well i bawb yn ein cymdeithas?

## Fe'n gelwir i gyhoeddi Iesu i bawb, gan gynnwys Aelodau Seneddol

Wrth inni garu ein Haelodau Seneddol, dewch inni ddod i'w nabod. Wedyn, pan ddaw adegau inni rannu ein persbectifs Cristnogol gyda nhw, fe fydden nhw eisoes yn ein nabod ac yn ein deall. Wedi'r cyfan, rydych yn llawer mwy tebygol o dderbyn beirniadaeth adeiladol gan rywun rydych chi'n eu hadnabod na chan rywun cwbl ddiarth. Pan ddaw ein Haelodau Seneddol i'n nabod ni fel pobl llawn cariad sy'n eu codi, maen nhw'n llawer mwy bodlon ymgysylltu â ni a phan fyddwn ni'n cynnig ein persbectif Cristnogol.

Mae'r alwad hon yn berthnasol i Gristnogion o fewn i'r eglwys ac yn y byd cyhoeddus. Fe'n gelwir ni i gael ein nabod fel pobl sy'n dangos parch i'n gilydd, hyd yn oed gyda'r rhai hynny lle mae gwahaniaeth barn yn bodoli – ac weithiau, yn enwedig gyda'r rhai hynny lle mae gwahaniaeth barn yn bodoli.

Yn Ioan 17:26, darllenwn i Iesu weddïo i gariad y Tad fod yn Ei ddilynwyr:


> **"Dw i wedi dangos pwy wyt ti iddyn nhw, a bydda i'n dal ati i wneud hynny, er mwyn iddyn nhw garu eraill fel rwyt ti wedi fy ngharu i, ac i mi fy hun fod ynddyn nhw."**

## Y cam cyntaf tuag at ymgysylltu â'ch cynrychiolwyr cyhoeddus

**Fel plant i Dduw, fe ddylen ni ymwneud â'n cynrychiolwyr cyhoeddus er mwyn dangos ein gwerthfawrogiad am eu gwasanaeth, eu canmol pan maen nhw'n cyflawni rhywbeth sy'n fuddiol a dod i'w nabod fel pobl, nid o safbwynt eu plaid wleidyddol. Pan ddaw'r cynrychiolwyr cyhoeddus hyn i wybod amdanon ni fel pobl sy'n dangos parch a chariad ac anogaeth, y gobaith ydy y bydden nhw'n gwrando arnon ni pan fo ganddon ni bersbectif arall i'w gynnig.**

Dydy ymgysylltu'n dda â'ch cynrychiolwyr cyhoeddus ddim o reidrwydd yn golygu fod yn rhaid ichi ymuno â phlaid wleidyddol neu orymdeithio mewn ralïau protest. Yn wir, fe gredwn ni mai'r ffordd orau o ddangos cefnogaeth i'n cynrychiolwyr ydy trwy weddïo drostyn nhw'n gyson... a gyda nhw lle bo hynny'n bosib.

> Felly, cyn ichi fynd ati, **cymerwch amser i weddïo dros eich cynrychiolwyr cyhoeddus.**



## Sut ydw i'n cysylltu â'm cynrychiolwyr cyhoeddus?

Pobl gyffredin ydy'r cynrychiolwyr cyhoeddus, felly does dim rhaid bod ag ofn ymwneud â nhw. Dechreuwch trwy gyflwyno'ch hunain; rhan bwysig iawn o'u swyddogaeth fel cynrychiolwyr cyhoeddus ydy dod i nabod eu hetholwyr, ac maen nhw'n fwy parod i ymwneud â rhywun pan fo ganddyn nhw well dealltwriaeth o bwy sy'n ceisio cysylltu â nhw. Medrwch grybwyll eich swydd, yr eglwys rydych yn ei mynychu, a'r prosiectau cymunedol rydych yn rhan ohonyn nhw.

Mae hi mor bwysig cysylltu â'ch cynrychiolwyr cyhoeddus, waeth pa blaid wleidyddol maen nhw'n perthyn iddi. Y man cychwyn ydy cysylltu â'ch cynrychiolydd lleol, pa blaid bynnag ydy ei dueddiad, ond mae'n bosib yr hoffech ehangu'r sgwrs a chael persbectif llawn am y mater dan sylw o bob ongl wleidyddol. Efallai y cewch eich synnu o ganfod cymaint o dir cyffredin sydd rhyngddoch chi a'r gefnogaeth a gewch i'ch pwnc trafod.

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfleu neges bositif wrth gyfarch ac agor sgwrs - rhywbeth sy'n annog eich cynrychiolydd cyhoeddus, cyn ichi symud ymlaen i leisio barn neu godi materion sydd o bwys i chi.**

**Dyma rai cwestiynau i'w hystyried wrth ddelio â'ch cynrychiolydd cyhoeddus, boed hynny ar-lein neu wyneb yn wyneb:**

- Ydy'r hyn rwy'n ei ddweud yn adeiladol?
- Fasen ni'n siarad â chydweithiwr yn y modd dw i'n siarad â'm cynrychiolydd cyhoeddus?
- Ai dyma sut dw i am i Gristnogion gael eu portreu?
- A ydw i'n cynrychioli fy eglwys yn dda?

## Pwy ydy'r unigolion sy'n ein cynrychioli yng Nghymru?

### Cynghorwyr

Mae 1,254 o gynghorwyr yng Nghymru. Mae'r math o feysydd mae cynghorau'n ymdrin â nhw'n cynnwys: cynllunio lleol, parciau a hamdden, parcio heb fod ar stryd a chofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau. Cewch ddarganfod pwy ydy eich cynghorwyr lleol yma: gov.uk/find-your-local-councillors

### Aelodau Senedd Cymru (AoSau):

Fe'ch cynrychiolir gan bum Aelod o'r Senedd (AoSau). Un dros eich ardal leol a phedwar dros ranbarth o Gymru rydych yn byw ynddo. Mae pobl Cymru'n ethol Aelodau i'w cynrychioli yn y Senedd. Ymysg y pwerau sydd gan y Senedd, mae iechyd a gofal cymdeithasol, tai, addysg, trafnidiaeth, busnes, datblygiad economaidd, gwasanaethau cymdeithasol, iaith a diwylliant, yr amgylchedd, llywodraeth leol, a mwy. Fodd bynnag, yn annhebyg i'r Alban a Gogledd Iwerddon, does gan Gymru mo'i hawdurdodaeth gyfreithiol ei hun gyda'i system o gyfraith, heddlu a llysoedd. Mae AoSau yn craffu ar waith Gweinidogion ac yn dal Adrannau i gyfrif. Mae AoSau yn eistedd mewn Senedd, yng Nghaerdydd; fodd bynnag, fe fydd ganddyn nhw hefyd swyddfa yn eu hetholaeth, lle gellir trafod materion lleol gyda nhw. Cewch ganfod pwy ydy eich AoS lleol trwy bwyso ar y map yn: https://senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd/

### Aelodau Senedd San Steffan (AS):

Mae Aelodau Seneddol yn eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin (neu Dŷ'r Arglwyddi) yn San Steffan, Llundain, gan gynrychioli buddiannau eu hetholwyr yng Nghymru. Yn bresennol, mae 40 sedd ar gael yn San Steffan i ASau Cymru. Fel Aelodau o'r Senedd yng Nghaerdydd, mae gan ASau swyddfeydd yn eu hetholaethau, lle caiff unigolion drafod materion gyda nhw. Cewch ganfod pwy ydy eich AS yma: members.parliament.uk/constituencies

## Gyda phwy ddylwn i gysylltu?

**Ar adegau, dydy hi ddim yn gwbl glir pwy orau i gysylltu â nhw ar wahanol faterion. Yn gyffredinol, cysylltwch â'ch cynghorydd lleol ynghylch gwasanaethau, cyfleusterau a chynllunio lleol. Os na fydd eich cynghorydd lleol yn medru eich helpu, fe fydd yn barod iawn i'ch cyfeirio at eich AoS lleol.**

Cysylltwch â'ch Aelod yn Senedd Cymru (AoS) am unrhyw fater a lywodraethir trwy gyfraith megis addysg, iechyd a chyfiawnder. Fe ddylai eich AoS lleol fod yn hapus i glywed eich pryderon am bob mater, hyd yn oed os nad ydy'r rheini yn eu maes nhw. Weithiau, mae'n werth canfod pa AoSau sy'n aelodau o'r pwyllgorau neu'r grwpiau hollbleidiol sy'n berthnasol i'ch mater chi, gan y bydd gan yr AoSau hyn ddiddordeb penodol yn, a dealltwriaeth o'r mater sydd o bwys i chi. Cewch siarad ag AoSau o'r tu allan i'ch etholaeth os ydych yn teimlo mai ganddyn nhw y byddai'r diddordeb neu'r arbenigedd ar y pwnc.

Fe ddylech chi gysylltu â'ch AS lleol os oes ganddoch bwnc trafod sy'n cael ei lywodraethu'n ganolog gan San Steffan, megis diogelwch cenedlaethol neu system dreth y DU.

Mae writetothem.com yn wefan ddefnyddiol sy'n hwyluso'r modd o gysylltu â'ch cynrychiolwyr trwy e-bost.

> Medrwch hefyd fynd at wefan neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol eich cynrychiolydd cyhoeddus i gael dyddiadau, amseroedd a lleoliadau cymorthfeydd etholaethau. Dyma'r amseroedd lle gewch chi alw heibio i weld eich cynrychiolydd cyhoeddus heb orfod gwneud apwyntiad.

## Sut fedrwch chi gefnogi eich cynrychiolydd cyhoeddus mewn modd ymarferol?

### Gweddïo drostyn nhw

Cefnogwch eich cynrychiolydd cyhoeddus trwy weddïo drostyn nhw. Fe allech chi weddïo eu bod yn profi tawelwch meddwl yn ystod cyfnodau o straen, neu ddoethineb pan fydd rhaid iddyn nhw gymryd penderfyniadau anodd. Yn ogystal â'ch gweddïau personol, fe allech chi gynnal cyfarfodydd gweddi yn eich eglwys yn benodol ar ran eich arweinwyr gwleidyddol, neu'n syml, gweddïo'n fwy rheolaidd drostyn nhw yn ystod astudiaethau Beiblaidd canol wythnos.

### E-bostio nhw

Mae'n beth da cadw cyswllt cyson gyda'ch cynrychiolwyr cyhoeddus ac mae anfon e-bost yn ffordd rwydd o wneud hynny. Dewch i'r arfer o anfon e-bost at eich cynrychiolydd cyhoeddus i'w hannog nhw, nid yn unig pan fo achos ganddoch i gwyno. Fe allech chi adael i'ch cynrychiolydd cyhoeddus eich bod yn gweddïo drostyn nhw a hefyd gofyn a oes unrhyw bwyntiau gweddi penodol i'w rhannu gyda'ch eglwys. Mae'n bosib y cewch eich siomi o'r ochr orau cymaint fyddai eich cynrychiolydd cyhoeddus yn gwerthfawrogi hynny.

### Anfon cerdyn atyn nhw

Fel e-bost, gellir defnyddio llythyr neu gerdyn i annog eich cynrychiolydd cyhoeddus, ac mae'n fwy tebygol o gael ei gofio. Mae llawer o gynrychiolwyr cyhoeddus yn gosod cardiau maen nhw'n eu derbyn ar hysbysfwrdd yn eu swyddfa i'w hatgoffa o'r gefnogaeth a'r anogaeth maen nhw'n ei dderbyn gan eu hetholwyr.

## Ymweld â nhw

Y ffordd orau o ddod i nabod eich cynrychiolydd cyhoeddus yn bersonol, ac iddyn nhw ddod i'ch nabod chi ac ymddiried ynoch, ydy cwrdd wyneb yn wyneb. Peidiwch â theimlo'n ansicr ynghylch gwneud hyn, wedi'r cyfan, person cyffredin ydy'r cynrychiolydd cyhoeddus hefyd.

## Cymryd anrheg atyn nhw

Mae bod yn gynrychiolydd cyhoeddus yn golygu llawer o straen, ac mae'r oriau ychwanegol a'r gwaith cymunedol y mae'n rhaid i gynrychiolydd cyhoeddus ei gyflawni'n aml yn ddiddiolch. Felly, beth am goginio cacen neu roi anrheg fach iddyn nhw, i ddangos eich gwerthfawrogiad o'r ymdrech maen nhw'n ei wneud?

## Eu gwadd nhw i'ch eglwys

Trwy wahodd cynrychiolydd cyhoeddus i'ch eglwys, byddwch yn dangos iddyn nhw bod croeso iddyn nhw a'u bod, fel unrhyw un arall, yn aelod gwerthfawr o'r gymuned. Efallai y byddai modd eu gwahodd i wasanaeth penodol, megis dathlu prosiect cymunedol neu achlysur arall yng nghalendr yr eglwys. Serch hynny, peidiwch â chyfyngu gwahoddiadau i ddiwrnodau arbennig - estynnwch wahoddiad i'ch cynrychiolydd cyhoeddus i fod yn rhan o'ch eglwys a'u helpu nhw i dystio i'r gwerth mae'r eglwys yn ei hychwanegu at fywyd eu hetholwyr.



## Boed inni fod yn *un*
## fel bod y *byd* yn gwybod

Ers 1846, rydyn wedi bod yn llais i'w drystio yn y gymdeithas, yn uno'r eglwys er mwyn yr efengyl.

---

# Ymunwch â ni heddiw

# **eauk.org/joinus**

---

cymru
cynghrair efengylaidd
gyda'n gilydd yn cyhoeddi Iesu

---


20 Stryd Fawr, Caerdydd

**FF** 029 2022 9822 | **E** wales@eauk.org | **G** eauk.org/wales



Y Cynghrair Efengylaidd. Cwmni cyfyngedig trwy warant. Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru. Rhif 123448. Rhif Elusen Gofrestredig Lloegr a Chymru: 212325, Yr Alban: SC040576. Swyddfa Gofrestredig: 176 Copenhagen Street, London, N1 0ST